# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-15-08)

Dyddiad: 2 Hydref 2008
Amser: 9:00 - 9:10
Lleoliad: Ystafell bwyllgora 22, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas i'r Pwyllgor a diolchodd i Alun Ffred Jones a Mike German am eu gwaith ar y Pwyllgor yn y gorffennol.

### 2: Ystyried y Flaenraglen Waith

#### RDC(3)-15-08 (p1)

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur ar y flaenraglen waith a drafodwyd gan yr aelodau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y Flaenraglen Waith.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, ac yn Sioe Frenhinol Cymru 2009.

### 3: Cynnig o dan Reol 10.37 o'r Rheolau Sefydlog i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd o'r Cyfarfod ar Gyfer Eitem 4

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 4, i alluogi'r pwyllgor i drafod materion cysylltiedig â'i adroddiad ar ad-drefnu ysgolion yng nghefn gwlad Cymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig a mynd i mewn i sesiwn breifat.